



Datganiad Ystadegol

Treth Gwarediadau Tirlenwi



Amcangyfrifon ar gyfer Chwarter 1,
Ebrill - Mehefin 2018

Ystadegau allweddol o'r datganiad hwn

O ran deunydd a waredwyd i safleoedd tirlenwi am y cyfnod Ebrill i Fehefin:



Bu 407 mil o dunelli o warediadau awdurdodedig, ac o'r rhain trethwyd 127 mil o dunelli ar y gyfradd safonol; 154 mil o dunelli ar y gyfradd is; a'r gweddill wedi derbyn rhyddhad neu ddisgownt.



Yr oedd y gwarediadau hyn yn golygu bod £11.7m o dreth yn daladwy, £11.3m o warediadau ar y gyfradd safonol a £0.4m ar y gyfradd is.



Gwaredwyd 126 mil tunnell o ddeunydd a dderbyniodd ryddhad neu ddisgownt, gan olygu rhyddhad treth o £0.3m.



Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn, yr oedd 17 o weithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn cwmpasu 23 safle. [Gellir cael mwy o wybodaeth am y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn ar wefan ACC.](#)

16 Awst 2018

ACC 05/2018

Beth sydd yn y datganiad hwn?

Y datganiad hwn yw'r cyntaf o gyfres chwarterol 2018/19 o ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT).

Mae'n cynnwys amcangyfrifon chwarterol o ddata ar sail cyfnod cyfrifyddu o Ebrill i Fehefin ar gyfer pob gweithredwr safle tirlenwi.

Mae'r diweddariad nesaf i fod i gael ei gyhoeddi 22 Tachwedd 2018. [Gellir canfod yr amserlen ar gyfer cyhoeddiadau ystadegol ACC ar wefan ACC.](#)


Cysylltwch â ni

Craiger Solomons

Ystadegydd

03000 254 723

Siart 1: Pwysau a threth daladwy ar ddeunydd a waredwyd fel gwastraff i safleoedd tirlenwi, Ebrill - Mehefin 2018



Cyfraddau treth sy'n berthnasol i Siart 1

	2018-19	2019-20
Cyfradd safonol	£88.95 y dunnell	£91.35 y dunnell
Cyfradd is	£2.80 y dunnell	£2.90 y dunnell
Cyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi (ddim yn siart 1)	£133.45 y dunnell	£137.00 y dunnell

Data a ddangosir yn y datganiad hwn

Mae'r ystadegau a gyflwynir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ffurflenni TGT gan weithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig i ACC. Mae pob un o'r ffurflenni hynny'n destun dilysu fel rhan o waith cydymffurfio a wneir fel mater o drefn gan ACC ac a all, o'r herwydd, gael ei ddiwygio yn y dyfodol. Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion y dulliau a ddefnyddiwyd i ganfod yr ystadegau o'r data a ddarparwyd yn y ffurflenni.

Dulliau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn

Mae'r ystadegau a gyflwynir yn y datganiad hwn yn darparu amcangyfrifon dros dro o'r dreth a oedd yn ddyledus o Ebrill i Fehefin 2018. Mae nifer fechan o weithredwyr safleoedd tirlenwi nad ydynt yn adrodd i ACC ar gyfnod cyfrifo chwarterol ac felly maent wedi adrodd data hyd at ddiwedd un ai Ebrill neu Fai 2018. Yn yr achosion hyn, rydym wedi amcangyfrif y data ar gyfer y chwarter llawn gan

ddefnyddio uwchgodi cymesur syml ar sail y nifer o ddyddiau yn y chwarter a gwmpesir gan eu ffurflenni.

Mae'r uwchgodi hwn yn ychwanegu rhwng chwech a saith y cant at werth y dreth a ddatganwyd ar y ffurflenni cyn yr addasiad. Yn y datganiad nesaf, bydd y data ar gyfer y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn yn cael eu diwygio i ystyried y ffurflenni yn y dyfodol sy'n cwmpasu gweddill y chwarter hwn, gan ddadgyfuno'r data'n gymesur. Mae hyn yn rhoi gwir ddata yn lle'r uwchgodi ar y rhagolwg ac felly mae'r gwerthoedd ar gyfer y chwarter hwn wedi'u marcio'n rhai dros dro hyd nes yr ymddengys cyhoeddiad y chwarter nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y broses hon, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar y dudalen flaen.

Pan gyfeirir at wastraff gan nodi ei fod wedi derbyn rhyddhad, bydd hyn wedi'i gofnodi'n wreiddiol gan weithredwyr y safleoedd tirlenwi fel gwastraff lefel is ac yna wedi'i dynnu ymaith mewn rhan ddilynol o'r ffurflen. Mae'r datganiad hwn yn adrodd ar y gwastraff sy'n destun rhyddhad yn y categori rhyddhad neu ddisgownt ond nid yn rhan o'r categori cyfradd is. Mae pwysau unrhyw wastraff y rhoddwyd disgownt mewn perthynas ag ef oherwydd disgownt dŵr (gweler yn nes ymlaen) wedi'i gynnwys yn y categori rhyddhad neu ddisgownt yn unig.

Does dim data ar gael eto ar warediadau heb awdurdod. Byddwn yn cadw'r agwedd hon dan adolygiad a gallem ddiwygio'r data ar gyfer y chwarter hwn wrth i unrhyw ddata ddod i law. Nodir yn ddiweddarach yn y datganiad hwn resymau eraill paham y gallai data gael ei ddiwygio.

Mae'r system TGT yn caniatáu rhoi credyd yn erbyn y dreth sy'n ddyledus ar gyfer ansolfedd cwsmer. Hyd yma, nid oes dim wedi'i adrodd a byddwn yn cadw hyn dan adolygiad wrth benderfynu sut i gyflwyno'r data yn y gyfres hon o ddatganiadau.

Tablau data

Tabl 1a: Pwysau o ddeunydd a waredwyd fel gwastraff i safleoedd tirlenwi (a)

Chwarter	Ffurflenni a dderbyniwyd	Cyfanswm safleoedd	Pwysau a waredwyd ('000 tonnelli) (b)			Cyfanswm (d)
			Rhyddhad neu ddisgownt (c)	Cyfradd is	Cyfradd safonol	
Ebrill - Mehefin 18 (p)	17	23	126	154	127	407

(a) Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am warediadau heb awdurdod gan nad oes unrhyw ddata ar gael eto.

(b) Mae'r pwysau a gyflwynwyd wedi'u talgrynnu i'r 1,000 tonnelli agosaf.

(c) Mae hyn yn cynnwys pwysau dŵr a dynnwyd o wastraff a waredwyd, ar gyfradd sero, a phwysau'r holl wastraff sy'n destun unrhyw ryddhad TGT.

(d) Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

Rhwng Ebrill a Mehefin, cafodd oddeutu 40 y cant o'r holl wastraff a waredwyd i dirlenwi ei drethu ar y gyfradd is, gyda phwysau ar y gyfradd safonol a'r pwysau a dderbyniodd ryddhad neu ddisgownt yn gyfrifol am oddeutu 30 y cant yr un.

Tabl 1b: Treth ddyledus ar ddeunydd a waredwyd fel gwastraff i safleoedd tirlenwi (a)

Chwarter	Treth yn ddyledus (£ miliynau) (b)			Swm y dreth a ryddhawyd (d)
	Cyfradd is	Cyfradd safonol	Cyfanswm (c)	
Ebrill - Mehefin 18 (p)	0.4	11.3	11.7	0.3

(a) Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am warediadau heb awdurdod gan nad oes unrhyw ddata ar gael eto.

(b) Mae'r gwerthoedd a gyflwynwyd wedi'u talgrynnu i'r £0.1m agosaf.

(c) Mae'r cyfanswm a gyflwynwyd wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

(d) Dyma'r gostyngiad mewn treth o ganlyniad i'r ceisiadau am ryddhad. Nid yw'r swm yn cynnwys unrhyw elfen am ddisgownt dŵr, nad yw'n cael ei drethu.

Mae'r cyfraddau treth sy'n berthnasol i'r tabl hwn yn cael eu dangos dan Siart 1. O ran y dreth ddyledus o Ebrill i Fehefin, mae'r mwyafrif llethol (96 y cant) o warediadau ar y gyfradd safonol ac mae gweddill y swm ar y gyfradd is, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yn ddwy gyfradd dreth.

Mae'r gwerth ar gyfer swm y dreth a ryddhawyd yn cynrychioli faint o dreth fyddai wedi bod yn ddyledus pe nad fyddai'r rhyddhad wedi'i ganiatáu.

Derbyniadau o TGT

Yn y datganiad nesaf, byddwn yn cychwyn cyfres o dderbyniadau chwarterol a dderbyniwyd ar gyfer TGT (ar sail dyddiad derbyn taliad, y cyfeirir ato weithiau fel 'ar sail arian parod'). Fodd bynnag, bydd angen i'r ffigurau o Ebrill i Fehefin gael eu cyfuno i ffigurau Gorffennaf i Fedi oherwydd nifer fechan y darparwyr a oedd eisoes wedi cyflwyno ffurflenni ac wedi talu cyn diwedd Mehefin (cyflwynodd a thalodd y rhan fwyaf yng Ngorffennaf). Wedi hynny, bydd y ffigurau'n cael eu cyhoeddi fel cyfres chwarterol.

Sut fydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol?

Dyma'r cyntaf o'n datganiadau ystadegol chwarterol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Byddwn yn cyhoeddi'r rhifyn chwarterol nesaf ar 22 Tachwedd. Bydd y cyhoeddiad nesaf yn diweddarau amcangyfrifon a gynhwyswyd yn y datganiad hwn yn ogystal â darparu amcangyfrifon ar gyfer yr ail chwarter (Gorffennaf – Medi) 2018. Mewn datganiadau i'r dyfodol, byddwn yn ceisio darparu sylwadau ar dueddiadau a phatrymau wrth i ni dderbyn mwy o ddata.

Bwriedir creu datganiad blynyddol hefyd a fydd yn darparu dadgyfuno mwy manwl ar y data, gan gynnwys o bosibl dadansoddiad o'r data ar ryddhad a disgownt; adrodd yn fanwl am unrhyw gredyd o ran ansolfedd cwsmeriaid; a darparu data ar brofion colled wrth danio. Mae hyn yn dibynnu, fodd bynnag, ar y gallu i wneud hyn heb nodi manylion unrhyw drethdalwr unigol. Bydd y datganiad blynyddol cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2019.

Gwybodaeth Gefndirol - Treth Gwarediadau Tirlenwi

O fis Ebrill 2018, disodlwyd y Dreth Tirlenwi yng Nghymru gan Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) a chaiff ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), yr awdurdod treth newydd ar gyfer Cymru.

Derbyniodd [Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\) 2017](#) Gydsyniad Brenhinol ar 7 Medi 2017. Fel Treth Tirlenwi, mae TGT yn dreth ar waredu gwastraff i dirlenwi a chodir y dreth yn ôl pwysau. Mae'n daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, sy'n trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff eraill drwy eu ffi glwyd.

Cyfraddau

Mae tair cyfradd TGT (mae'r tabl dan siart 1 yn darparu'r cyfraddau ar gyfer 2018-19 a 2019-20):

- cyfradd is ar gyfer deunyddiau sy'n cwrdd â'r amodau a nodir yn y Ddeddf ([gweler y canllawiau i gael rhagor o wybodaeth ar ddeunyddiau cymwys](#));
- cyfradd safonol ar gyfer pob deunydd arall; a
- chyfradd gwarediadau heb awdurdod ar gyfer gwarediadau trethadwy a wneir yn rhywle ac eithrio safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

Codir gwarediad trethadwy ar safle tirlenwi awdurdodedig ar y gyfradd safonol oni bai bod y deunydd sy'n cael ei waredu yn cynnwys un neu fwy o ddeunyddiau cymwys yn unig neu'n gymysgedd cymwys o ddeunyddiau, ac os felly, codir y gyfradd is.

Bydd gwarediad trethadwy sy'n cael ei wneud yn unrhyw le oni bai am safle tirlenwi awdurdodedig yn ddarostyngedig i dâl yn ôl y gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi. Mae hyn waeth beth fo natur y deunydd a waredir a waeth pe byddai fel arall yn ddarostyngedig i'r gyfradd safonol neu'r gyfradd is pe bai'n cael ei waredu mewn safle tirlenwi awdurdodedig.

[I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllawiau technegol TGT.](#)

Cyfnodau cyfrifyddu

Mae pob gweithredwr safle tirlenwi yn cytuno ar gyfnod cyfrifyddu gyda'r ACC ar gyfer dychwelyd ffurflen TGT, y mae'n rhaid iddi gael ei derbyn erbyn diwrnod gwaith olaf y mis yn dilyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu. Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr safleoedd tirlenwi'n gweithio'n unol â chwarteri calendr safonol, fel bod y data ar gyfer unrhyw chwarter penodol yn cael ei gynnwys ar un ffurflen TGT ar gyfer y gweithredwr safle tirlenwi hwnnw. Mae'r ffurflenni hyn i fod i gael eu derbyn gan ACC erbyn diwrnod gwaith olaf y mis wedi diwedd y chwarter, er enghraifft, yr oedd data ar gyfer Ebrill i

Fehefin 2018 i fod i gael ei dderbyn erbyn 31 Gorffennaf 2018 yng nghyswllt pob darparwr sy'n gweithio'n unol â chwarteri calendr safonol.

Fodd bynnag, mae lleiafrif bychan o weithredwyr safleoedd tirlenwi'n gweithio'n unol â chyfnodau amgen o dri mis, ac felly fe wnaethant hwy ddarparu eu ffurflen TGT gyntaf yn cwmpasu dim ond rhan o'r cyfnod Ebrill i Fehefin 2018, un ai erbyn 31 Mai 2018 neu 30 Mehefin 2018. O'r herwydd, gwnaed addasiadau i'r data a gyflenwyd gan y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn er mwyn rhagweld data'r chwarter llawn fel rhan o'r ystadegau a ddarparwyd yn y datganiad hwn. Nodir yr addasiadau hyn yn yr adran dulliau uchod.

Bydd y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn yn parhau i ffeilio ffurflenni ar sail chwarter heb fod yn chwarter calendr, ac felly er y bydd y rhan fwyaf o ffurflenni'n cael eu derbyn erbyn diwedd Gorffennaf, Hydref, Ionawr ac Ebrill yn y dyfodol, bydd nifer fechan o ffurflenni'n parhau i gael eu derbyn erbyn diwrnod gwaith olaf y misoedd eraill. Bydd y broses addasu a nodir yn yr adran dulliau yn parhau i gael ei defnyddio i gynhyrchu amcangyfrifon chwarterol wrth i'r data ddatblygu.

Esemptiadau

Gall rhai enghreifftiau o waredu deunyddiau gael eu hystyried yn esempt rhag TGT ac felly ni fyddant yn cael eu hadrodd i'r ACC. Ni chesglir unrhyw ddata ar y gwarediadau esempt hyn. Ar hyn o bryd mae dau warediad esempt, fel a ganlyn:

Amryfal warediad deunydd ar yr un safle

Pan mae'r deunydd wedi cael ei gynnwys eisoes ar ffurflen dreth a bod treth wedi'i thalu wrth ei waredu ar yr un safle. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond un waith y bydd gwarediadau lluosog o'r un deunydd ar yr un safle awdurdodedig yn agored i TGT.

Mynwentydd anifeiliaid anwes

Mae'n berthnasol i safleoedd tirlenwi awdurdodedig nad ydynt *ond* yn derbyn gwaredu cyrff neu lwch anifeiliaid anwes marw (ac unrhyw flwch neu wrn sy'n eu cynnwys). Gan fod y gwarediadau mewn mynwentydd anifeiliaid anwes yn esempt, nid oes raid i weithredwyr mynwentydd o'r fath gofrestru gydag ACC i gyfrif ar gyfer TGT. Nid yw'r esemptiad yn cwmpasu safleoedd tirlenwi eraill sy'n derbyn gweddillion anifeiliaid anwes a mathau eraill o wastraff.

Rhyddhadau

Gellir hawlio rhyddhad ar rai gwarediadau trethadwy ar y gyfradd is ar safleoedd awdurdodedig. Mewn achosion o'r fath ni chaiff y dreth ei chodi os bydd y rhyddhad yn cael ei hawlio mewn ffurflen dreth. Caiff rhyddhadau eu gosod mewn pedwar categori cyffredinol:

- deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o ddyfroedd eraill drwy garthu;
- deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela;
- ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli; ac
- adfer safleoedd.

Disgownt dŵr

Caiff gweithredwr safle tirlenwi wneud cais i ACC am gymeradwyaeth i gymhwyso disgownt mewn perthynas â dŵr sydd mewn deunydd wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy. Mae'r amgylchiadau pryd gellir cymhwyso'r disgownt mewn perthynas â dŵr wedi'u cyfyngu i achosion cyfiawn pryd y mae angen ychwanegu neu ddefnyddio dŵr. Gellir gwneud ceisiadau pan fydd y dŵr yn bresennol fel mater o raid yn y deunydd at y dibenion canlynol:

- bod rhaid ei ychwanegu er mwyn gallu cludo'r deunydd i'w waredu;
- bod rhaid ei ychwanegu i echdynnu mwyn;
- bod rhaid ei ychwanegu yn ystod proses ddiwydiannol;
- ei fod yn deillio'n anochel o ganlyniad i broses ddiwydiannol; neu
- bod y deunydd yn weddillion trin elifiant neu garthion mewn gwaith trin dŵr.

Bydd yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi hawlio'r disgownt mewn perthynas â dŵr yn eu ffurflen dreth drwy ddarparu manylion y tunelledd dŵr i'w ddisgowntio ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu. Nid yw wedi'i gynnwys mewn unrhyw bwysau yr adroddwyd ei fod yn destun y cyfraddau safonol neu is.

I gael rhagor o wybodaeth am esemptiadau, rhyddhadau a disgownt, gweler y [canllawiau technegol ar wefan ACC](#) a'r [ddeddfwriaeth ar gyfer Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\) 2017](#).

Gwarediadau heb eu hawdurdodi

Gallai gwaredu deunydd fel gwastraff fod yn agored i TGT ni waeth ymhle cafodd y gwarediad ei wneud. Gall gwarediadau a wnaed y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig fod yn agored i'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi (£133.45 y dunnell ar hyn o bryd). Caiff y gyfradd hon ei chymhwyso, yn ddiwahân, i bob deunydd a waredir, ni waeth os yw'r deunydd yn agored i'r gyfradd safonol neu'n gymwys ar gyfer y gyfradd is. Nid oes yr un o'r esemptiadau neu ryddhadau sy'n gymwys i warediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig ar gael i warediadau anawdurdodedig.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar [warediadau heb eu hawdurdodi ar wefan ACC](#).

Adran ansawdd allweddol

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu sefydlu er mwyn diwallu gofyniad y defnyddiwr ar gyfer data ar weithredu'r Dreth Trafodiadau Tir, ar ôl sefydlu ACC.

Mae ystadegau am y trethi cyfatebol yn Lloegr a'r Alban yn cael eu cyhoeddi gan Gyllid a Thollau EM a Revenue Scotland. Hyd at Ebrill 2018, yr oedd ystadegau ar warediadau tirlenwi yng Nghymru wedi'u cynnwys ym mwletin Cyllid a Thollau EM, ond ddim yn cael eu dangos fel gwerthoedd ar wahân o fewn data Cymru a Lloegr.

[Cyllid a Thollau EM - Treth Tirlenwi Bwletin](#)

[Revenue Scotland – Ystadegau Treth Tirlenwi yr Alban](#)

Yn yr adran dulliau uchod, rydym wedi nodi sut y byddwn yn addasu'r data i adlewyrchu'r dreth sy'n ddyledus yn y chwarter, sy'n caniatáu i ni amcangyfrif ac adrodd ar yr TGT sy'n ddyledus yn y chwarter hwnnw. Bydd Cyllid a Thollau EM yn adrodd ar y ffurflenni treth a gyflwynwyd bob mis, sy'n dibynnu ar gyfnodau cyfrifyddu gweithredwyr y safleoedd tirlenwi, ac yna'n gwneud rhai addasiadau cyfrifyddu i adlewyrchu'r gweithgaredd chwarterol. Nid oedd modd i ni gyhoeddi yn ôl pob mis oherwydd y risg o ddatgelu manylion gweithredwyr safleoedd tirlenwi unigol ac rydym hefyd yn awyddus i'r dreth sy'n cael ei hadrodd ymwneud yn llwyr â'r cyfnod yr adroddir yn ei gylch. O'r herwydd, rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Chyllid a Thollau EM er mwyn deall eu haddasiadau cyfrifyddu'n well, a gydag awdurdodau treth eraill y DU fel y gallwn asesu cymhared y data yma gyda data ar gyfer Cymru cyn Ebrill 2018 a'r data cyfredol ar gyfer y DU yn ehangach. Byddwn yn creu dogfennaeth yn amlinellu'r cysondeb yn y dyfodol.

Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol newydd, rydym wrthi'n datblygu ein prosesau cyhoeddi ystadegol. Bydd ein polisi interim ar allbynnau ystadegol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir, a bydd yn amlinellu'r canlynol:

- y safonau proffesiynol a ddilynwyd wrth greu'r ystadegau hyn;
- sut mae Swyddog Arweiniol Ystadegau ACC yn rheoli cynnwys ac amseru'r allbynnau'n annibynnol;
- sut rydyn ni'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr am allbynnau sydd ar y gweill; a
- bydd staff sy'n ymwneud â chynhyrchu ystadegau'n mynd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn unol â fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil a fframwaith cymwyseddau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Bydd rhagor o ddogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi gyda'r datganiadau ystadegol sydd ar y gweill a byddant yn amlinellu:

- sut byddwn yn ymwneud â defnyddwyr; a
- sut caiff data ei gasglu, ei storio a'i reoli.

Asesu ansawdd y data hwn

Rydym yn parhau i asesu ansawdd y data a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i fwy o ddata gael ei dderbyn.

Rydyn ni wedi asesu'r budd a'r pryderon posibl o ran ansawdd yn unol â chanllawiau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar ddefnyddio data gweinyddol, gan nodi unrhyw bryderon posibl o ran ansawdd. Mae'r tabl isod yn cyflwyno ein hasesiad cyfredol.

Ffynhonnell data	Proffil budd y cyhoedd	Lefel y risg o bryderon ynghylch ansawdd	Lefel yr wybodaeth sicrwydd a ddatblygir
Ffurflen TGT	Isel	Isel	A1 – sicrwydd sylfaenol

Wrth baratoi'r datganiad hwn, rydym wedi gweithio'n agos gyda staff gweithredol ACC i ganfod materion pellach yn ystod casglu a phrosesu ffurflenni unigol. Rydym wedi datblygu rhai systemau rheoli ansawdd yng nghyswllt ffurflenni treth sy'n tynnu sylw at feysydd pryder posibl o ran ein staff gweithredol sydd wedyn yn gallu cysylltu â gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gywiro problemau posibl.

Mae'r gwiriadau hyn wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai materion bychan iawn o ran talgrynnu yn y data a gyflwynwyd i ACC, yn bennaf oherwydd cyflwyno ffurflenni am fwy nac un safle a thalgrynnu ar y bont bwysu. Mae'r materion hyn yn creu gwahaniaethau o ran cysondeb mewnol o lai na £5 gyda'i gilydd, sy'n gyfforddus o fewn y paramedrau talgrynnu a ddefnyddiwyd gennym wrth gyflwyno'r canlyniadau.

Mae enghraifft bellach o'r mater ansawdd a ddarganfuwyd gennym i'w weld isod.

Enghraifft

Drwy edrych ar gysondeb mewnol y data ar draws pob ffurflen, canfuwyd problemau lle yr oedd ein canllawiau ni yn amwys a lle yr oedd peth pwysau disgownt dŵr wedi ei gofnodi yn erbyn gwarediadau trethadwy. Aethom ati i ddiwygio'r canllawiau i'w gwneud yn gliriach, a chadarnhau fod yr holl weithredwyr safleoedd tirlenwi cysylltiedig wedi dilyn y canllawiau newydd hynny wedyn, gan gywiro data fel bo angen cyn cyhoeddi.

Diwygio data i'r dyfodol

Mae'r data yn y datganiad hwn yn un dros dro ar hyn o bryd a gallai gael ei ddiwygio mewn datganiadau yn y dyfodol i roi cyfrif am ddiweddariadau i ffurflenni, er enghraifft yn dilyn gwiriadau cydymffurfiaeth arferol a wneir gan ACC.

Mae'r adran dulliau yn gynharach yn y datganiad yn ymdrin â diwygiadau a gynlluniwyd i'r data, a marcio data'r chwarter diweddaraf fel 'dros dro', o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau ad hoc sy'n ofynnol yn dilyn gwiriadau cydymffurfio'n llai hawdd eu rhagweld. Er enghraifft, mae hawliadau am ryddhad yn cael eu hasesu ar hyn o bryd, ac yn yr achosion hyn, mae'r gwastraff dan sylw wedi'i gyfrifo ar hyn o bryd yn amcangyfrifon y gyfradd is a gyflwynwyd. Os caiff y rhyddhad ei gymeradwyo, gallai gael ei ôl-ddyddio i gynnwys chwarteri blaenorol, fel y gallai addasiad heb ei gynllunio i'r data a gyflwynir yma godi (er ei fod yn debygol o fod yn fychan). Pan mae angen gwneud diwygiadau heb eu cynllunio i ddata hanesyddol, byddwn bob amser yn esbonio'n glir y rhesymau dros hynny yn y datganiad perthnasol.

Cysondeb â data arall

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn gallu cymharu pwysau gwarediadau trethadwy â rhywfaint o ddata o ffurflenni gwastraff a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn caniatáu gwirio pellach ar synnwyr y data a gyflwynwyd yma a bydd yn digwydd am y tro cyntaf cyn cyhoeddi'r datganiad chwarterol nesaf.

Adborth ac ymholiadau

Rydyn ni'n croesawu adborth a sylwadau i'n cynorthwyo i ddatblygu'r datganiadau hyn, a'n datganiadau yn y dyfodol.

Defnyddiwch y manylion isod i gysylltu â ni.

Y Cyfryngau a'r Wasg E-bost: newyddion@acc.llyw.cymru

Defnyddwyr eraill E-bost: data@acc.llyw.cymru

Ffôn 03000 254 723

Diweddariad nesaf

22 Tachwedd 2018 (gweler yr adran 'Sut bydd y data'n cael ei gyhoeddi yn y dyfodol?')

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.

